Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Ymlaen:

## Y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol 2024 i 2029

# Cyflwyniad

Mae pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn mynd gam ymhellach i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i bobl Cymru. Drwy gefnogi unigolion a theuluoedd ym mhob cymuned, mae'r sector gofal cymdeithasol yn amddiffyn plant, oedolion ac oedolion hŷn a'u helpu i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Nod y strategaeth hon yw helpu pobl sy'n arwain, datblygu a dosbarthu gofal cymdeithasol.

Mae hynny oherwydd ein bod ni'n gwybod y gall ymchwil, arloesi a gwella cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach yn erbyn cefndir o anghydraddoldeb cynyddol, galw cynyddol, costau cynyddol a phwysau recriwtio.

Mae'r system gymorth wedi bod yn gyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol o'i gymharu â'r hyn a welwn mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill fel addysg ac iechyd. Mae cynnydd i'w weld ym maes gofal cymdeithasol diolch i waith amryw o sefydliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bydd mwy o gyfleoedd yn y dyfodol drwy ymrwymiad partneriaid a datblygiadau polisi gan gynnwys y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal Cymdeithasol.

Felly mae'n amserol i ni gael dull strategol ar y cyd i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol i gyflawni'r dyheadau sy'n cael ei nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydyn ni eisiau creu diwylliant lle mae tystiolaeth yn ganolog i'r broses gyflawni ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar bob lefel o ofal cymdeithasol, a lle mae pobl yn teimlo ysbrydoliaeth a chefnogaeth i roi cynnig ar bethau newydd.

**Ymlaen yw'r strategaeth rydyn ni wedi'i datblygu gyda'n gilydd i gyflawni'r nodau hynny.**







# Ein gweledigaeth

Mae pobl sy'n arwain, yn datblygu ac yn darparu gofal cymdeithasol yn teimlo'n hyderus, a'u bod yn cael eu cefnogi a'u hysbrydoli i ddefnyddio tystiolaeth ac arloesedd i wneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru.

I gyflawni'r weledigaeth hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i wneud y canlynol:

**Pennu cyfeiriad:** nodi blaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella fel y gallwn gyfeirio sylw, adnoddau a chamau gweithredu i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf.

**Cysylltu:** 'uno'r dotiau' rhwng gwahanol fathau o gymorth ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella ym maes gofal cymdeithasol.

**Galluogi:** creu amodau sy'n galluogi newid positif a pharhaol ym maes gofal cymdeithasol.

**Cefnogi:** rhoi cymorth uniongyrchol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i annog ymchwil, arloesi a gwella.

**Amharu:** ysbrydoli ffyrdd newydd o weithio.







# Cyd-destun

Yn 2018, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru *Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol 2018 i 2023* mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Dyma'r tro cyntaf i ni osod nodau a chamau clir i gefnogi ymchwil gofal cymdeithasol gwell ac i ddatblygu ymarfer sydd wedi'i gyfoethogi gan dystiolaeth ar lefel genedlaethol.

**Rydyn ni wedi cyflawni llawer gyda'n partneriaid yn ystod oes y strategaeth gyntaf:**

- mae ymchwil newydd wedi'i ariannu
- rydyn ni wedi gweithio gydag ymarferwyr a phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth i bennu blaenoriaethau ymchwil
- rydyn ni wedi ei gwneud hi'n haws cael mynediad at ddata gofal cymdeithasol drwy ddod â'r cyfan at ei gilydd mewn un lle
- rydyn ni wedi cefnogi pobl i wneud synnwyr o ymchwil a'i roi ar waith.

Ledled Cymru, mae ystod eang o sefydliadau wedi bod yn cefnogi ymarfer wedi'i gyfoethogi gan ymchwil a thystiolaeth, gwella ac arloesedd ym maes gofal cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu strategaeth ar y cyd gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n ceisio datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Ymlaen yn ategu'r strategaeth hon.

Ond rydyn ni'n gwybod bod llawer i'w wneud o hyd i helpu i gyflawni'r dyheadau ar gyfer gofal a chymorth sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Ddeddf yn nodi gweledigaeth lle mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda phlant ac oedolion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed, hybu ataliad, ac i gefnogi llesiant unigol a llesiant ar y cyd.

Datgelodd gwerthusiad o'r Ddeddf (2023) fod cefnogaeth gref iddi o hyd ymhlith dinasyddion a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ond mae yna rwystredigaeth nad yw'r gweithredu wedi bod mor llwyddiannus â'r disgwyl.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, fe wnaethon ni glywed bod pobl eisiau i ni, ynghyd â'n partneriaid, fynd i'r afael â'r bwlch rhwng polisi, deddfwriaeth a strategaeth a'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Maen nhw am i'r Ddeddf gael ei chyflwyno i bawb, ac i'n strategaeth newydd gyfrannu at y nod hwnnw. Mae angen rhoi gwella bywydau pobl wrth galon popeth, gan sicrhau ein bod yn cydbwyso anghenion y dyfodol â'r hyn sydd ei angen heddiw - fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisïau dilynol fel *Cymru Iachach, Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol a Cymru'n Arloesi*, wedi atgyfnerthu ein huchelgeisiau ar gyfer llesiant, cynaliadwyedd amgylcheddol, atal, a chefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn golygu cynyddu ein gallu o ran ailalluogi, adsefydlu a gofal canolraddol, trawsnewid y ffordd rydyn ni i gyd yn cefnogi plant a theuluoedd, gwell integreiddio rhwng ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol, a chefnogi'r sector i gyflawni sero net erbyn 2030.

Mae datblygu a gweithredu'r strategaeth hon hefyd yn gyfle i helpu i wireddu ein dyheadau ar y cyd i Gymru fod yn wlad decach i bawb. Mae'r strategaeth hon yn cefnogi gwaith ystod eang o bartneriaid i fynd i'r afael â gwahaniaethu drwy gyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, yn ogystal â chynllun y Gymraeg Mwy na Geiriau, i wneud newid mesuradwy i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae gwaith gwych yn digwydd ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni  am gefnogi hyn drwy sefydlu dull ymchwil, arloesi a gwella sy'n canolbwyntio ar gydweithio. Mae cytuno ar flaenoriaethau gyda'n gilydd yn ein helpu i benderfynu ble y dylen ni ganolbwyntio ein hymdrechion unigol ac ar y cyd.

Rydyn ni hefyd eisiau cryfhau'r 'llais' gofal cymdeithasol. Dywedodd pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol wrthon ni nad ydyn nhw'n teimlo bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n dda yn y sector cyhoeddus. Gyda'n gilydd, byddwn yn llais awdurdodol sydd wedi'i seilio ar ymgysylltiad a thystiolaeth, i hyrwyddo gofal cymdeithasol a sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu hystyried a'u clywed.

Mae newid yn dod â risgiau a chyfleoedd. Mae rheoli risg yn hanfodol a dylai gefnogi'r hyn sy'n bwysig i'r person, nid bod yn rhwystr iddo.




# Beth rydyn ni'n ei olygu wrth ymchwil, arloesi a gwella

Rydyn ni wedi cyfuno ymchwil, arloesi a gwella yn ein strategaeth newydd gan nad ydyn ni o reidrwydd yn meddwl amdanyn nhw fel pethau gwahanol. Rydyn ni'n fwy tebygol o feddwl am ffyrdd newydd o wneud pethau, gwneud rhywbeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, neu ddeall beth sy'n gweithio.

Mae **ymchwil** yn golygu ceisio casglu gwybodaeth newydd drwy fynd i'r afael â chwestiynau wedi'u diffinio gyda dulliau systematig a thrylwyr. Mae'r strategaeth yn defnyddio diffiniad eang o ymchwil sy'n cynnwys ymchwil academaidd ond sydd hefyd yn cwmpasu ymchwil a gwerthuso sy'n seiliedig ar ymarfer. Rydyn ni eisiau i bobl deimlo'n hyderus i wneud eu hymchwil eu hunain yn eu dewis iaith, i werthuso eu ffyrdd o weithio, a defnyddio tystiolaeth i lywio eu hymarfer. Rydyn ni hefyd eisiau cefnogi ein partneriaid ymchwil academaidd i wneud ymchwil o ansawdd uchel, a byddwn yn hyrwyddo hyn ar draws y maes gofal cymdeithasol.

Mae **arloesi**'n ymwneud â defnyddio gwybodaeth newydd i wella sut mae pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd sy'n newydd i leoliad penodol, neu i ofal cymdeithasol. Mae arloesi'n digwydd mewn gwahanol ffyrdd, ac ar raddfeydd gwahanol. Gall fod yn fater o system sy'n haws gweithio ynddi, newid y ffordd mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu, creu technolegau digidol newydd, neu gyflwyno ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag ymarfer. Mae ymarferwyr gofal cymdeithasol yn arloesi yn eu gwaith bob dydd, i ymateb i'r hyn sy'n bwysig i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi. Mae cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau gyda'r hyn sy'n bwysig i bobl yn rhan allweddol o'u rôl.

Mae **gwella**'n fwy anodd i'w ddiffinio ac yn golygu llawer o bethau i wahanol bobl.  Mae'n cynnwys newid positif sy'n cynyddu fesul cam, a chwilio am wahanol ffyrdd o gynllunio, rheoli a darparu gofal a chymorth. Mae'n wahanol i arloesi oherwydd ei fod yn cynnwys parhad - mae'r ffyrdd newydd o wneud pethau'n seiliedig ar fodelau sy'n bodoli'n barod.




Ein nod yw ymwreiddio prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u cyfoethogi gan dystiolaeth ar draws pob lefel o ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n gwerthfawrogi tystiolaeth o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys:

- ymchwil, gan ymarferwyr ac ymchwilwyr arbenigol
- profiad a doethineb pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth a gofalwyr
- data a deallusrwydd
- gwybodaeth a doethineb ymarferwyr.

Dywedodd pobl eu bod nhw eisiau diwylliant lle mae ymchwil, arloesi a gwella yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ganolog i'r broses gyflawni.

# Gweithio gyda phartneriaid

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y strategaeth hon ar gyfer pobl sy'n arwain, datblygu a darparu gofal cymdeithasol, bydd angen cydweithio cryf ar draws ystod eang o sefydliadau partner. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain y strategaeth newydd hon ac yn gweithio gyda phartneriaid i'w chyflawni.

Datblygwyd y strategaeth gyntaf gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ar gyfer y strategaeth newydd, mae set ehangach o bartneriaid ar draws ymchwil, arloesi a gwella wedi cydweithio. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gweithio ar gynllun gweithredu a fydd yn amlinellu'r gweithgareddau y bydd pob un ohonom yn ymrwymo iddyn nhw. Rydyn ni eisiau ymdeimlad cryf o berchnogaeth ar y cyd ar gyfer y strategaeth a'r ffordd mae'n cael ei chyflawni.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw golwg ar y gweithredu ac yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd yn rheolaidd i rannu cynnydd ac i gytuno ar ein gwaith yn y dyfodol. Rydyn ni am i hon fod yn strategaeth 'fyw', gyda'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol. Mae angen i'r gweithredu fod yn sgwrs barhaus, nid rhywbeth y byddwn yn adrodd arno yn achlysurol.

I wneud hyn, byddwn yn creu grwpiau o'n sefydliadau partner ac yn cynnwys y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol rydyn ni'n ceisio eu cefnogi. Dyma fydd y grwpiau:

- grŵp goruchwylio o uwch arweinwyr i roi cyngor, helpu i oruchwylio'r cynnydd a effaith y strategaeth, ac i ddileu rhwystrau i gynnydd ar draws ein sefydliadau partner. Bydd y grŵp hwn hefyd yn blaenoriaethu camau gweithredu os bydd y capasiti neu'r adnoddau ariannol ym maes gofal cymdeithasol yn golygu na allwn fwrw ymlaen â'r holl gamau gweithredu fel y cynlluniwyd
- cymunedau o 'weithredwyr' ar draws partneriaid, i greu amgylchedd o rannu, dysgu a gwneud gweithredol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa dda i ysgogi'r gwaith hwn oherwydd ein bod yn arwain ar ymchwil, datblygu'r gweithlu, gwella, arloesi a rheoleiddio'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydyn ni eisoes yn gwneud llawer i helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i gysylltu, datblygu sgiliau a gwybodaeth, a chael mynediad at ymchwil a data mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

Nod ein strategaeth newydd yw gwneud cyfraniad pob partner yn gliriach o ran cymorth ymchwil, arloesi a gwella. Mae'n gyfle i bob un ohonon ni 'uno'r dotiau' i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac i wneud y gwaith caled o ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i wneud gwahaniaeth i sut maen nhw'n darparu cymorth.

# Sut fyddwn ni'n gweithio

Ar y cyd â'n partneriaid, rydyn ni wedi cytuno ar rai egwyddorion allweddol o ran sut byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i roi'r strategaeth ar waith.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn **gwrando** ar yr ystod lawn, gyfoethog ac amrywiol o leisiau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn tynnu sylw at leisiau pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth ac nad ydyn nhw'n aml yn cael eu clywed neu'n cael blaenoriaeth. Byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn eirioli dros systemau, strwythurau ac arferion gwrth-hiliaeth.

Byddwn yn **cyd-gynllunio** ein cymorth gyda phobl sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Ein prif bwyslais yw'r bobl sy'n arwain, datblygu a darparu gwasanaethau, oherwydd dyna sut rydyn ni'n credu y gallwn gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd. Bydd hyn yn ein helpu i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferwyr i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig ac i sicrhau newid sy'n gweithio'n ymarferol i bobl sy'n cael mynediad at ofal a chymorth.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth **i gymryd camau ar y cyd**, lle mae eu hangen fwyaf, i gael yr effaith fwyaf. Byddwn yn osgoi dyblygu ac yn ceisio 'uno'r dotiau'.

Byddwn wastad yn **dysgu** drwy ein gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth hon. Byddwn yn dysgu gyda'n partneriaid ac oddi wrthyn nhw i greu system gymorth sy'n gweithio'n dda ac sy'n gallu addasu i newidiadau. Byddwn hefyd yn dysgu gan bobl sy'n gweithio mewn gofal a chymorth ac yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, ac yn dysgu o ymchwil a data.

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd **i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau technolegol a digidol** i gefnogi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd hyn yn cynnwys archwilio moeseg a phriodoldeb defnyddio technolegau digidol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Byddwn yn **addasu ac yn ymateb** i amgylchiadau ac anghenion newidiol, a gwybodaeth newydd. Byddwn yn ymwybodol o flaenoriaethau a phwysau newidiol a brofir gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau ac yn ymateb iddyn nhw. Byddwn yn gwerthuso'r strategaeth wrth iddi gael ei datblygu a'i rhoi ar waith, a byddwn yn chwilfrydig ac yn agored am ffyrdd newydd a chynaliadwy o wneud pethau.

Mae angen i'r strategaeth gyfrannu at newid cadarnhaol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac ar ofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni am hyrwyddo diwylliant cynhwysol o wneud penderfyniadau wedi'u cyfoethogi gan dystiolaeth. Yn yr adran olaf, rydyn ni'n nodi sut byddwn ni'n gwybod os yw'r strategaeth wedi llwyddo ac os yw'n cael yr effaith rydyn ni'n anelu ato.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'n partneriaid





# Pennu cyfeiriad

Nodi blaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella fel y gallwn gyfeirio sylw, adnoddau a chamau gweithredu i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf.

### Pam?

Mae'n bwysig ein bod ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein pwyslais yn bositif, yn ddefnyddiol, yn gynhyrchiol ac yn cael ei lywio gan yr hyn sydd bwysicaf i bobl. Mae angen i ni fabwysiadu dull croestoriadol, lle rydyn ni'n ystyried sut y gall gwahanol fathau o wahaniaethu ryngweithio a llunio profiadau unigryw pobl.

### Camau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partneriaid

1. **Sganio'r gorwel.** Byddwn yn:

   - dod â phartneriaid ac eraill at ei gilydd i fyfyrio, pennu cyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol a dysgu oddi wrth ein gilydd ac o fannau eraill
   - nodi a rhannu posibiliadau ar gyfer newid i gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol
   - cysylltu cyfleoedd newydd, dysgu ac ysbrydoliaeth â'n gweithgarwch galluogi a chefnogi
   - defnyddio ymchwil a data i nodi cyfleoedd a heriau posibl yn y dyfodol ac archwilio datrysiadau posibl.

2. **Pennu blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith ar y cyd.** Byddwn yn:

   - gweithio gyda phartneriaid i gynnal prosesau pennu blaenoriaethau strwythuredig, cadarn a chynhwysol yn rheolaidd. Bydd y rhain yn ein helpu i ddeall beth sy'n bwysig i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, ac i deuluoedd a gofalwyr - yn enwedig pobl nad yw eu safbwyntiau yn cael eu clywed na'u blaenoriaethu'n aml
   - annog a chefnogi ymchwil sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau a'n gwerthoedd ar y cyd, gyda phwyslais penodol ar ymchwil sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau
   - ystyried lle gall ein gwaith ar y cyd gael yr effaith fwyaf
   - ystyried goblygiadau cyfeiriad polisi, deddfwriaeth a strategaethau yn ein gwaith o bennu blaenoriaethau
   - defnyddio ein blaenoriaethau cyffredin i benderfynu sut rydyn ni'n canolbwyntio ac yn addasu ein gweithgarwch ar y cyd
   - dod â phartneriaid at ei gilydd i nodi heriau lle gallai arloesi digidol chwarae rôl ddefnyddiol.

3. **Defnyddio tystiolaeth i hyrwyddo ‘llais’ gofal cymdeithasol.** Byddwn yn:

- dathlu diwylliant unigryw gofal cymdeithasol yng Nghymru
- hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac eirioli dros systemau, strwythurau ac arferion gwrth-hiliaeth
- amlygu’r materion anodd sy’n effeithio ar bobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac sy’n cael mynediad ato
- meithrin y rhesymau cryf a chymhellol i argyhoeddi eraill o’r angen am newid.

# Cysylltu

'Uno'r dotiau' rhwng y gwahanol fathau o gymorth ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella ym maes gofal cymdeithasol.

## Pam?

I'r rhai sy'n cyd-gynllunio, darparu ac arwain gwasanaethau, mae angen i ni greu system gymorth sy'n meithrin diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Mae angen iddi ysgogi camau gweithredu a bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion gwahanol.

## Camau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partneriaid

1. **Meithrin dealltwriaeth o bwy sy'n gwneud beth i gefnogi ymchwil, arloesi a gwella a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.** Byddwn yn:

   - meithrin perthnasoedd ystyrlon gyda'n gilydd i wneud newid yn bosibl
   - cydweithio i ddiffinio ein rolau a deall cyfraniadau ein gilydd
   - dod o hyd i ffyrdd o gysylltu'r gwahanol feysydd fel eu bod nhw'n cyfathrebu ac yn hysbysu ei gilydd yn barhaus, gan gael yr effaith fwyaf posibl ac osgoi dyblygu
   - cysylltu pobl ag ymchwil a thystiolaeth sy'n digwydd yng Nghymru, ynglŷn â Chymru, ac sy'n berthnasol i Gymru
   - sicrhau bod pobl yn gwybod sut y gall ein system gymorth eu helpu, a gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd llywio'r system a chael mynediad ati.

2. **Datblygu cyfleoedd ar gyfer prosiectau ar y cyd a threfniadau ariannu.** Byddwn yn:

   - buddsoddi a dod o hyd i gyfleoedd i wella cymorth ar gyfer y system gyfan – er enghraifft, mapio'r ffynonellau cymorth a sefydlu fforymau cydweithio
   - dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer cydweithio ac ariannu ar y cyd, gan gynnwys swyddi a secondiadau ar y cyd
   - datblygu partneriaethau ffurfiol rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr
   - dod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau rhwng cymorth technolegol a digidol a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

# Galluogi

Creu amodau sy'n galluogi newid positif a pharhaol ym maes gofal cymdeithasol.

### Pam?

Mae angen i ni ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddysgu a thyfu, ac i ymateb i'r heriau ym maes gofal cymdeithasol. Mae potensial gan bethau fel dulliau rheoleiddio a chyllido i godi rhwystrau os nad ydyn nhw wedi'u cynllunio i gefnogi'r weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer gofal cymdeithasol.

### Camau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partneriaid

1. **Datblygu dulliau ariannu ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella sy'n hyrwyddo creadigrwydd a newid cynaliadwy.** Byddwn yn:

   - eirioli dros ffrydiau ariannu newydd ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ar gyfer prosiectau o wahanol feintiau ac uchelgeisiau gwahanol
   - archwilio, ymchwilio ac argymell dulliau ariannu sy'n galluogi datblygu hirdymor, cynaliadwy a chynhwysol, gyda gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar bobl a pherthnasoedd wrth galon popeth.

2. **Rhannu tystiolaeth a syniadau i reoli a darparu gwasanaethau.** Byddwn yn:

   - cefnogi prosiectau ymchwil ar ofal cymdeithasol yng Nghymru, neu sy'n berthnasol i Gymru, sy'n cael eu cynnal yma neu y tu hwnt
   - annog mwy o ymchwil am rôl y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol
   - casglu a gwneud synnwyr o'r ymchwil a'r data gorau sydd ar gael
   - rhannu gwybodaeth a mewnwelediad mewn ffyrdd sy'n bodloni gwahanol ddewisiadau dysgu, sgiliau, profiadau ac anghenion, drwy ddulliau digidol a mwy traddodiadol
   - helpu pobl i gyfuno'r hyn maen nhw'n ei ddysgu o ymchwil a data â'u doethineb eu hunain a phrofiadau bywyd pobl sy'n cael mynediad at ofal a chymorth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

3. **Helpu i fesur beth sy’n bwysig ym maes gofal cymdeithasol.** Byddwn yn:

- creu ffyrdd gwell o fesur a deall safbwyntiau a phrofiadau gwahanol, a chydnabod sut mae anghydraddoldebau yn croestorri i siapio’r rhain
- dysgu o dystiolaeth werthuso a phrofiad ymarfer, gan nodi beth sy’n atal newid a sut mae pobl yn goresgyn hynny
- helpu pobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i fesur yr hyn sy’n bwysig a rhoi’r gorau i gyfri’r hyn sydd ddim yn bwysig, fel y gallan nhw ddangos effaith a chanolbwyntio ar wella a chyflawni.

# Cefnogi



Darparu cymorth uniongyrchol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i annog ymchwil, arloesi a gwella.

### Pam?

Mae angen i ni gefnogi ymchwil, arloesi a gwella mewn ffyrdd sy'n ymateb i uchelgeisiau a chymhlethdodau gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ein dyheadau polisi cenedlaethol i greu gwlad decach a mwy cyfartal.

### Camau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partneriaid

1. **Meithrin hyder, sgiliau a galluogrwydd ymarferwyr mewn ymchwil, arloesi a gwella.** Byddwn yn:

    - meithrin galluogrwydd a chymorth i ddefnyddio, deall, cynhyrchu a chael mynediad at ymchwil foesegol o ansawdd da
    - meithrin galluogrwydd er mwyn addasu a dysgu o arferion a datblygu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg.

2. **Meithrin a thyfu gallu ymchwil gofal cymdeithasol.** Byddwn yn:

    - cydweithio i gefnogi datblygiad a lefelau cadw ymchwilwyr gofal cymdeithasol cynnar ar ddechrau a chanol eu gyrfa mewn prifysgolion a chanolfannau ymchwil yng Nghymru.

3. **Creu mannau cynhwysol a hygyrch i ddysgu a datrys problemau.** Byddwn yn dod â phobl at ei gilydd i:

    - ddeall a mynd i'r afael â heriau ac anghydraddoldebau wrth gyflwyno a darparu gwasanaethau
    - adnabod, chwalu a goresgyn rhwystrau
    - feddwl am yr hyn a allai fod yn bosibl
    - ystyried cyfraniad posibl technoleg ddigidol.

## 4. Cefnogi pobl i brofi dulliau newydd a deall eu heffaith.

Byddwn yn:

- darparu cymorth, dysgu a gwybodaeth gwerthuso
- darparu hyfforddiant a mentora i bobl archwilio gwahanol ffyrdd o weithio.

## 5. Darparu cymorth a datblygiad arweinyddiaeth.

Byddwn yn:

- helpu arweinwyr ym maes gofal cymdeithasol i ddatblygu diwylliannau dysgu tosturiol sy'n mynd y tu hwnt i hyfforddiant gorfodol
- cefnogi arweinwyr i feithrin diwylliannau cynhwysol llawn parch drwy ddefnyddio egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol
- datblygu sgiliau arwain wrth gynhyrchu a defnyddio ymchwil a data i lywio'r broses o gynllunio, ymarfer a dylunio gwasanaethau, gan gynnwys modelu'r gweithlu
- cefnogi camau i arweinwyr ddysgu wrth ei gilydd ac archwilio a meithrin eu datblygiad proffesiynol.

# Amharu



Ysgogi ffyrdd newydd o weithio.

### Pam?

Mae angen i ni fod yn fwy beiddgar a dewr wrth fynd i'r afael â'r heriau a'r anghydraddoldebau sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Dyma'r unig ffordd byddwn ni'n creu modelau gofal a chymorth arloesol a chynaliadwy.

Mae angen i ni herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud nawr, a fydd yn cyflawni mwy o'r un peth, wrth werthfawrogi gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i wella canlyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r hyn sy'n bwysig, nawr ac yn y dyfodol.

### Camau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partneriaid

1. **Hyrwyddo'r amodau ar gyfer 'amharu positif' a chydbwyso hawliau a chyfrifoldebau.** Byddwn yn:

   - annog a chefnogi 'amharu positif', sy'n golygu herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, gyda'r nod o wella canlyniadau
   - cyflwyno a hyrwyddo'r dystiolaeth i wneud pethau'n wahanol
   - dod â mwy o leisiau i ddylunio a gweithredu
   - hyrwyddo rôl bosibl arloesi digidol wrth gefnogi gofal cymdeithasol
   - cynyddu'r ddealltwriaeth y gall arloesi olygu profi syniadau nad ydyn nhw, o bosibl, yn berffaith i ddechrau
   - creu mannau i fyfyrio'n agored ac yn onest am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio
   - helpu pobl i ddysgu o'r hyn sy'n digwydd pan nad yw pethau'n mynd cystal â'r disgwyl a symud ymlaen.

2. **Annog pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, ar bob lefel, i gael hyder yn eu gallu i gyflwyno newid positif.** Byddwn yn:

   - hyrwyddo effaith 'buddugoliaethau bychain'
   - rhoi cyhoeddusrwydd i fentrau lleol, gan gydnabod gwerth arloesi ar lawr gwlad
   - targedu cymorth i gynnwys 'arloeswyr bob dydd' ac arweinwyr newid ac arloesi sy'n dod i'r amlwg, yn hytrach na phobl mewn rolau rheoli ffurfiol yn unig
   - cefnogi pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i ddeall sut beth yw newid positif, sut mae'n edrych ac yn teimlo.

# Crisialu stori ein heffaith a'i hadrodd

Mae ein strategaeth wedi'i chynllunio i gael ei chyflawni ar y cyd â'n partneriaid. Byddwn yn gwybod bod hyn yn wir os yw:

- partneriaid yn deall eu cyfraniad i'r strategaeth ac yn cymryd perchnogaeth ar y cyd dros gyflawni'r weledigaeth gyffredin
- partneriaethau newydd a phartneriaethau gwell yn deillio o'r strategaeth drwy rannu gwybodaeth, dysgu ac adnoddau
- pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn cael mynediad at y cymorth sydd ar gael drwy bartneriaid.

Byddwn yn gwybod bod y strategaeth wedi bod yn llwyddiannus, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol os oes:

- mwy o gyfleoedd i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal i rannu, myfyrio a dysgu gyda'i gilydd
- mentrau arloesol yn cael eu rhannu a phocedi o arferion addawol yn lledaenu ac yn tyfu
- gan bobl sy'n gweithio mewn ac yn arwain gofal cymdeithasol yr hyder a'r sgiliau i:
  - ddefnyddio tystiolaeth wrth ymarfer a gwneud penderfyniadau
  - arwain a chyfrannu at welliannau ac arloesedd mewn arferion bob dydd, datblygu gwasanaethau a newid trawsnewidiol
  - gwerthuso eu cyfraniad a dangos y gwahaniaeth y mae eu gwaith wedi'i wneud
  - arwain diwylliannau sy'n ei gwneud yn bosibl cymryd risgiau positif, ystyriol.
- gan bobl ym maes gofal cymdeithasol y sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer eu gwaith
- gennym ni brosesau hygyrch ac effeithiol i gefnogi arloesi digidol
- gan bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol wybodaeth am le i gael gafael ar dystiolaeth ymchwil
- camau i adnabod a mynd i'r afael â'r bylchau mewn data ac ymchwil
- camau i gasglu a rhannu tystiolaeth o werthusiad
- gwell argaeledd a defnydd o ddata gofal cymdeithasol.

Mae angen i ni ddatblygu dealltwriaeth well o effaith ein gwaith. Mae angen i ni hefyd ddysgu'n barhaus ac addasu beth rydyn ni'n ei wneud i wneud y gorau o'r effaith positif gallwn ni ei chael ar bobl sy'n darparu gofal a chymorth.

Byddwn ni'n defnyddio dull sy'n cael ei alw'n ddadansoddiad o gyfraniad i grisialu ein heffaith ac adrodd stori'r hyn rydyn ni'n ei gyflawni gyda'n gilydd drwy'r strategaeth hon. Mae hynny'n golygu edrych ar sut mae'r hyn rydyn ni wedi'i wneud yn cyfrannu at ein nod.

Byddwn ni'n gwerthuso ein heffaith wrth fynd ymlaen a byddwn yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Byddwn ni'n hyblyg, gan ddefnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu i addasu ein ffordd o weithredu lle bo angen.